

Er mwyn eich cynorthwyo i baratoi ar gyfer eich clyweliad/cyfweliad, darllenwch y nodiadau canllaw canlynol yn ofalus.

Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2023, bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr gyflwyno clyweliad wedi'i recordio i gefnogi eu cais. Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais UCAS Conservatoires dylech gyflwyno eich clyweliad wedi'i recordio drwy [Acceptd](https://app.getacceptd.com/rwcmd) [https://app.getacceptd.com/rwcmd].

Cyfansoddwyr

Eich Portffolio

- Dylid cyflwyno portffolios erbyn **dydd Gwener 21 Hydref 2022**.
- Gall Acceptd brosesu ffeiliau yn y fformatau canlynol: MP3, MP4, MPEG, MPG, MOV, AVI, WMV, M4V, FLV, WEBM, MKV, M2V. Neu, gallwch lanlwytho dolen neu ddolenni URL i YouTube. Ni ddylai unrhyw ffeil fideo a lanlwythir fod yn fwy na 4GB.
- Fel arfer dylai'r portffolio gynnwys copiâu gydag o leiaf TRI darn cyferbyniol. Os ydych yn ysgrifennu ar gyfer offerynnau acwstig (neu ar gyfer llais) dylai eich darnau fod wedi'u nodiannu'n llawn, yn ddefnyddol gyda recordiadau.
- Dylid enwi'r recordiadau yn gywir fel y gellir ei hadnabod, a dylid cynnwys eu hyd a disgrifiad o sut y gwnaed pob recordiad, pwy oedd yn rhan o'r broses ac a gafodd y sgorau wedi'u nodiannu o'r gweithiau a recordiwyd eu creu cyn neu ar ôl y recordiad.
- Os ydych yn defnyddio cyfryngau technolegol fel cyfansoddwr dylech gyflwyno recordiadau o'ch gwaith ynghyd â sylwadau beirniadol sy'n cynnwys manylion eich prosesau creadigol a'r adnoddau a ddefnyddiwyd. Byddai o gymorth i gael gweld sgorau graffig a nodiannau eraill gyda'r gwaith hwn.
- Bydd angen i gyfansoddwyr gyflwyno portffolio o waith gwreiddiol.
- Sylwer mai dim ond cyflwyniadau portffolio ar ffurf electronig y gallwn eu derbyn.
- I gael cyngor pellach gweler y [Canllawiau Clyweliad Cyfansoddi](#).

Yn dilyn yr asesiad o'r portffolio a gyflwynir, bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu cyfweliad pellach ar-lein.

Cyfweliad Pellach

Os gwahoddir chi i fynychu cyfweliad ar-lein pellach, byddwn yn anfon cadarnhad o'r camau nesaf atoch drwy e-bost / Accepted. Unwaith y bydd union ddyddiad ac amser eich cyfweliad wedi'u cadarnhau byddant yn cael eu hychwanegu at eich cais UCAS.

Yn ystod y cyfweliad cewch gyfle i siarad am eich uchelgais ar gyfer y dyfodol ac i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r Coleg a'r cwrs.

Bydd cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr a ddewisir o'r portffolio a gyflwynir erbyn y dyddiad cau fel arfer yn cael eu cynnal ar ddyddiau'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) rhwng 31 Hydref a 9 Rhagfyr 2022

Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Ein nod yw rhoi gwybod am benderfyniadau o fewn 3 wythnos i gyfweliad. Rhoddir gwybod am bob penderfyniad yn dilyn cyfweliad drwy UCAS Conservatoires Track/Hub.

Offerynwyr, Cantorion ac Arweinwyr

Eich Clyweliad wedi'i Recordio

- Dylid cyflwyno recordiadau erbyn **dydd Gwener 21 Hydref 2022**.
- Gall Acceptd brosesu ffeiliau yn y fformatau canlynol: MP4, MPEG, MPG, MOV, AVI, WMV, M4V, FLV, WEBM, MKV, M2V. Neu, gallwch lanlwytho dolen neu ddolenni URL i YouTube. Ni ddylai unrhyw ffeil fideo a lanlwythir fod yn fwy na 4GB.
- Dylai eich clyweliad fod yn ffeil glyweledol a dylai ddechrau gyda disgrifiad ar lafar o'ch profiad a'ch nodau ar gyfer y dyfodol. Dylech hefyd gynnwys cyflwyniad byr ar lafar ar gyfer pob darn yn eich recordiad.
- Rhaid i'r recordiad ddangos yn glir chi yn chwarae eich offeryn/canu/arwain heb ddim yn y ffordd. Sylwer y bydd cyflwyniad (gwisg, ymarweddiad ac arddull llwyfan cyffredinol) yn gwella effaith eich clyweliad.
- Dylai eich recordiad gynnwys perfformiad gydag o leiaf ddau waith cyferbyniol sydd wedi'u bwriadu i ddangos elfennau technegol a cherddorol eich arddull perfformio (gweler isod ar gyfer canllawiau ychwanegol).
- Gall recordiadau offerynnol fod gyda chyfeiliant neu heb gyfeiliant
- Dylai fod recordiadau lleisiol gyda chyfeiliant
- Dewiswch ddarnau sy'n caniatáu i chi arddangos eich gallu i'r eithaf. Dylai eich perfformiad bara tua 10-15 munud.
- **Ni** dderbynnir recordiadau sain yn unig.

Yn dilyn yr asesiad o'r portffolio a gyflwynir, bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu clyweliad pellach ar-lein neu yn y cnaud.

Clyweliad Pellach

Os gwahoddir chi i fynychu clyweliad pellach, byddwn yn anfon cadarnhad o'r camau nesaf atoch drwy e-bost / Acceptd. Unwaith eu bod wedi'u cadarnhau ychwanegir union ddyddiad ac amser eich clyweliad at eich cais UCAS.

Yn ystod y clyweliad cewch gyfle i siarad am eich uchelgais ar gyfer y dyfodol ac i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r Coleg a'r cwrs.

Os ydych yn dewis mynychu clyweliad ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â'r repertoire a berfformiwyd yn eich cyflwyniad wedi'i recordio gyda chi, bod eich offeryn wrth law, a'ch bod mewn man a fydd yn eich galluogi i ymateb i gwestiynau gan y panel a all gynnwys profion sain y clust syml, graddfeydd ac arddangos enghreifftiau wedi'u tynnu o'r sgôr.

Bydd clyweliadau ar gyfer ymgeiswyr a ddewisir ar gyfer y rhestr fer o blith y recordiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau fel arfer yn cael eu cynnal ar ddyddiau'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) rhwng 31 Hydref a 9 Rhagfyr 2022

Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Ein nod yw rhoi gwybod am benderfyniadau o fewn 3 wythnos i glyweliad. Rhoddir gwybod am bob penderfyniad yn dilyn cyfweliadau/clyweliadau drwy UCAS Conservatoires Track

Canllawiau Ychwanegol

Arweinwyr

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno recordiad gweledol o berfformiad; lle maent i'w gweld yn arwain. Rhaid i'r recordiad eich dangos yn glir yn arwain heb ddim yn y ffordd. Yn ddelfrydol dylai'r recordiad hwn gael ei wneud o safle sy'n wynebu'r arweinydd, yn hytrach nag o safbwynt y gynulleidfa. Dylai'r recordiad gynnwys o leiaf ddau ddarn cyferbyniol sy'n dangos gallu technegol a mynegiannol a dylai bara tua 10-15 munud.

Yn dilyn asesiad y clyweliad wedi'i recordio, gwahoddir ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer i fynychu cyfweliad ar-lein. Yn ystod y cyfweliad gofynnir i chi drafod strategaethau ar gyfer paratoi a rihysio un o'r darnau o'ch recordiad ar gyfer y clyweliad, a chewch gyfle i siarad am eich dyheadau ar gyfer y dyfodol a gofyn cwestiynau ynglŷn â'r Coleg a'r cwrs.

Cynhelir cyfweliadau fel arfer ar ddyddiau'r wythnos rhwng 31 Hydref a 9 Rhagfyr 2022, ar gyfer clyweliadau wedi'u recordio a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau.

Yn dilyn y cyfweliad hwn, efallai y gwahoddir ymgeiswyr i fynychu clyweliad a chyfweliad terfynol naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb. Os gwahoddir chi i fynychu clyweliad a chyfweliad pellach, byddwn yn anfon cadarnhad o'r camau nesaf atoch drwy e-bost / Acceptd. Unwaith y byddant wedi'u cadarnhau ychwanegir union ddyddiad ac amser eich clyweliad at eich cais UCAS.

Yn ystod y clyweliad gofynnir i chi arwain un o ensembles CBCDC a bydd aelodau'r panel yn arsylwi arnoch.

Mae'r clyweliad a'r cyfweliad hwn yn debygol o ddigwydd yn ystod Gwanwyn 2023.

Piano

Cynghorir perfformio o'r cof. Dylech baratoi isafswm o DRI darn cyferbyniol, gan wneud yn siŵr bod eich repertoire yn rhoi cyfle i chi ddangos ystod lawn eich gallu technegol a mynegiannol, ac sy'n cynnwys cerddoriaeth mewn arddulliau cyferbyniol ac o wahanol gyfnodau.

Lanlwythwch:

- gopi clir o'r darnau a berfformiwyd gennych, neu anfonwch ddolen ar gyfer ffynhonnell ar-lein atom

A HEFYD

- rhestr lawn o'r repertoire a astudiwyd dros y ddwy flynedd flaenorol.

Yn dilyn asesiad o'r clyweliad wedi'i recordio gwahoddir ymgeiswyr sydd ar y rhestr

fer i fynychu clyweliad pellach.

Yn ystod y clyweliad cewch gyfle i siarad am eich uchelgais ar gyfer y dyfodol ac i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r Coleg a'r cwrs.

Os ydych yn dewis mynychu clyweliad ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â'r repertoire a berfformiwyd yn eich cyflwyniad wedi'i recordio gyda chi, bod eich offeryn wrth law, a'ch bod mewn man a fydd yn eich galluogi i ymateb i gwestiynau gan y panel a all gynnwys profion sain y glust syml, graddfeydd ac arddangos enghreifftiau wedi'u tynnu o'r sgôr. Ar gyfer clyweliadau Allweddellau a gynhelir ar-lein, mae allweddell electronig yn ddigonol, a gofynnir i ymgeiswyr Allweddellau berfformio astudiaeth gyflym a anfonwyd cyn eu clyweliad, ac nid oes angen iddynt berfformio darnau a gyflwynwyd eisoes.

Bydd clyweliadau ar gyfer ymgeiswyr a ddewisir ar gyfer y rhestr fer o blith y recordiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau fel arfer yn cael eu cynnal ar ddyddiau'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) rhwng 31 Hydref a 9 Rhagfyr 2022.

Llais

Dylai recordiadau llais ar gyfer clyweliad fod gyda chyfeiliant, mae defnyddio trac cefndir yn dderbyniol. Dylai eich recordiad gynnwys perfformiadau gydag o leiaf dri arddull cyferbyniol, i gynnwys cân, oratorio neu opera mewn tair iaith wahanol, a rhaid i un ohonynt fod yn **Eidaleg**.

Yn dilyn asesiad o'r clyweliad wedi'i recordio gwahoddir ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer i fynychu clyweliad pellach.

Yn ystod y clyweliad cewch gyfle i siarad am eich uchelgais ar gyfer y dyfodol ac i ofyn cwestiynau ynglŷn â'r Coleg a'r cwrs.

Os ydych yn dewis mynychu clyweliad ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â'r repertoire a berfformiwyd yn eich cyflwyniad wedi'i recordio gyda chi, bod eich offeryn wrth law, a'ch bod mewn man a fydd yn eich galluogi i ymateb i gwestiynau gan y panel a all gynnwys profion sain y clust syml, graddfeydd ac arddangos enghreifftiau wedi'u tynnu o'r sgôr.

Bydd clyweliadau ar gyfer ymgeiswyr a ddewisir ar gyfer y rhestr fer o blith y recordiadau a gyflwynir erbyn y dyddiad cau fel arfer yn cael eu cynnal ar ddyddiau'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) rhwng 31 Hydref a 9 Rhagfyr 2022.

Cyngor Ychwanegol ar gyfer Clyweliadau Cysylltiedig

Beth ddylwn ei wneud os na allaf gael darn i gyd-fynd yn union gyda'r cyfeiliant a recordiwyd ymlaen llaw?

Os ydych chi'n fodlon eich bod wedi gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau perfformiad da gyda'ch cyfeiliant a recordiwyd ymlaen llaw ond rydych yn dal i fod yn anhapus, gallwch gynnwys recordiad digyfeiliant o'r darn **yn ychwanegol** at y cyflwyniad gyda chyfeiliant.

Awgrymiadau a Chynghorion ar gyfer Cyflwyniadau wedi'u Recordio:

- Gwnewch yn siŵr bod eich dyfais recordio wedi'i gosod ar dreipod neu arwyneb gwastad, a sicrhau eich bod yn gallu cael eich gweld drwy gydol eich perfformiad. Os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol, recordiwch yn llorweddol.
- Os ydych yn defnyddio ffôn symudol, gwnewch yn siŵr nad ydych yn recordio eich cyflwyniad yn y 'modd hunlun'.
- Rhaid i'ch perfformiad fod yn un recordiad parhaus heb unrhyw olygu neu doriadau. Mae golygiadau yn dderbyniol ar gyfer cyflwyniad a deialog cloi yn unig.
- Ni ddisgwylir i chi logi offer recordio. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r fideo a'r sain fod o 'ansawdd da' ar gyfer cyflwyniadau. Derbynnir recordiadau o ffonau symudol.
- Os nad oes modd i chi gael gafael ar unrhyw ddyfais recordio, cysylltwch ag admissions@rwcmd.ac.uk i gael cyngor.
- Pan fo hynny'n bosibl, gwnewch yn siŵr bod y golau wedi'i gyfeirio o'r blaen neu'r ochrau. Er enghraifft, os ydych chi'n eistedd gyda ffenestr y tu cefn i chi fe fyddwch yn diflannu, a bydd y fideo'n ymddangos yn dywyll ac aneglur. Mae hi yr un mor bwysig ein bod yn gweld eich perfformiad yn ogystal â'i glywed.
- Cyn dechrau eich recordiad, gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o gof a bywyd yn y batri.

Sain

- Cyn gwneud eich recordiad, sicrhewch nad yw'r sain yn aflunio yn ystod y rhannau cryfaf, a chadwch bellter cyson o'ch dyfais recordio drwy gydol eich perfformiad.
- Gosodwch y ddyfais recordio yn agos i'ch offeryn, ond nid yn rhy agos. Arbrofwch gyda gwahanol bellteroedd er mwyn gweld beth sy'n gweithio orau i chi. Dechreuwch bump i chwe throedfedd i ffwrdd ac yna addasu. Bydd yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad a'r ddyfais recordio sy'n cael ei defnyddio.

- Gellir defnyddio offer recordio neu feicroffonau allanol ar gyfer iPhone/Android er mwyn helpu i wella ansawdd y sain, er nad yw'r rhain yn angenrheidiol.
- Recordiwch yn y man cywir. Ceisiwch gael cyn lleied â phosibl o sŵn cefndir. Meddyliwch am ba amser o'r dydd a'r lleoliad lle gallwch gael y mwyaf o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd yn y cefndir.
- Ystyriwch lle a phryd yr ydych yn gwneud y recordiad. Gall eich ystafell wely neu'r ystafell fyw weithio'n dda. Os oes gennych fynediad at ystafell seinglos mae hynny'n wych! Os nad oes, po feddalaf yr amgylchedd gorau oll. Mae sain yn bowndio oddi ar arwynebau caled a gall hyn greu atsain nad ydych am ei gael. Osgowch ystafelloedd mawr gwag. Yn eich cartref, mae blancedi, gobenyddion a llenni i gyd yn ffyrdd effeithiol o amsugno'r sain.
- Mae'n bwysig iawn i wneud ffug recordiad a gwrando ar y sain.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau a gyflwynir gan gyflwyniadau wedi'u recordio a chyfarwyddir aelodau ein paneli i ganiatáu ar gyfer materion sydd y tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd pan fyddant yn gwyllo ac yn asesu'r fideo. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gyflawn ond mae'n dangos y math o bethau all gael eu heffeithio arnynt drwy gyflwyniadau fideo, ac felly cânt eu cymryd i ystyriaeth:

- Oedi amser rhwng sain a llun
- Ansawdd sain offerynnol/lleisiol
- Piano sydd allan o diwn, neu ddim o ansawdd arbennig o dda (yn cynnwys defnydd o allweddellau trydan)
- Defnyddio offeryn modern ar gyfer ar gyfer repertoire hanesyddol

Os yw eich recordiad cerddorol gorau yn cynnwys mân darfu domestig (e.e. seiren yn y cefndir, rhywun yn cerdded heibio), mae'n bwysig eich bod yn gwybod y gall y panel anwybyddu hyn, felly peidiwch ag aberthu'r fersiwn honno.